# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 08.03.23 - am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** David Griffiths (DG) - Cadeirydd, Huw Davies (HD), Ian Williams (IW), Geraint Edwards (GE), Geraint Micah (GM), Francesca Pridding (FP), Jane Lawrence (JL), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau:** Keith Carroll, Nicola Roberts, Jenny Warne, Louise Hughes - Cynghorydd Sirol.

2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol (08.02.23) yn gywir yn amodol ar y newidiadau canlynol:

   **5. Materion yn codi or cofnodion blaenorol** - pwyntiau B - D i gael yr is-benawdau isod -
   ***B*** *- Cytundeb Cyflogaeth a Thâl y Clerc Newydd*, ***C*** *– SARPA*, ***D*** *- Prisiau Cynnal a Chadw.*

   **Cynnig:** GE **Eiliwyd:** FP

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol :**

   **Dyfyniadau:** Doedd GM heb dderbyn y manylebau ar e-bost i'w alluogi i cyflwyno ei bris. Gofynwyd iddo adael yr ystafell tra bod y mater yn cael sylw ynghyd â DG a oedd wedi darparu dyfynbris.
   Cadarnhaodd GM ei fod yn dymuno cyflwyno dyfynbris ac felly cynigiwyd gan IW ac eiliwyd gan FP i ohirio agor y dyfynbrisiau a dderbyniwyd, ac i wneud penderfyniad yn y cyfarfod nesaf yn Mis Ebrill.
   JJ i ddarparu copiau o'r manyldebau i GM a'i hafnon drwy'r post iddo, i'w alluogi i gyflwyno ei bris.
   Gwahoddwyd **GM a DG** yn ôl i'r ystafell yn dilyn y drafodaeth.

   **Peintio llinellau melyn a gwyn ar y ffordd** – dywedodd JJ fod llinellau melyn wedi'u cynnwys ar yr amserlen waith nesaf a byddai'r gwith yn cael ei wneud yn ystod y gwanwyn/haf.
   Gwaith paentio'r llinellau gwyn yn y meusydd parcio – nodyn wedi cael eu hanfon ymlaen at yr Adran Barcio a fyddai'n ceisio pris gan y cwmni peintio llinell. Dim gweithred pellach.

   **Biniau Halen:** dim gweithred pellach ynglyn â rhain gan nad ydynt bellach yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned.

   **Arwydd:** Cadernhaodd DG bod yr arwydd "creigiau yn rhydd" wedi ei dynnu i lawr gan Cyngor Gwynedd a bod arwydd newydd (cywir) wedi cael ei archebu.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

   1. **Penodi Archwilydd Mewnol** : JJ yn cadarnhau fod y mater mewn llaw, a'i bod wedi cysylltu ag Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd a bod llythyr ymgysylltu wedi'i lofnodi a'i ddychwelyd ond ei bod heb dderbyn y copi wedi'i lofnodi yn ol eto.

   2. **Un Llais Cymru:** Pawb yn hapus i adnewyddu aelodaeth Un Llais am y flwyddyn nesaf.
      JJ i anfon siec i adnewyddu'r aelodaeth.
      Gofynnodd FP os oedd modd anfon ei manylion cysylltu hi iddynt (e-bost) iddi gael derbyn gohebiaeth ganddynt yn uniongyrchol.

   3. **Tom Brown:** Cytunodd yr aelodau y gellid anfon manylion cysylltu y contractwr(wyr) y bydd y Cyngor Cymuned yn derbyn i wneud y gwaith cynnal a chadw'r llwybrau , er mwyn iddo ef allu cysylltu a hwy yn uniongyrchol i ofyn iddynt rhoi pris iddo am dori gwair Mynwent y Crynwyr.

4. **Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian** – pawb yn cytuno i JJ godi cwestiwn i Network Rail, ac i unrhyw barti perthnasol arall, ynglyn a pryd y bydd y gwaith yn dechrau ar y ffordd rhwyng Llwyngwril a Friog (A493) mewn perthynas â'r wal derfyn a'r rhwystr diogelwch - gan fod hyn wedi'i raglennu i gychwyn yn Chwarter Cyntaf – 2023.

5. **Cais McMillan**: Cais am gyfraniad ariannol wedi ei dderbyn. Penderfyniad heb ei wneud ar y mater.

6. **Amrywiol:**
   - **a)** Arolwg Anghenion Hyfforddi - DG, GE a FP i gwblhau arolwg gyda JJ. Dyddiad i'w drefnu.
   - **b)** E-bost oddi wrth Peter Barnes Sibrydion – dywedodd FP na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach gan ein bod yn cydymffurfio.

6. **<u>Materion Cynllunio</u>:** Dim.

7. **<u>Adroddiad Ariannol:</u>**

**a)** Derbyniwyd Adroddiad Ariannol 21/01/23 i 21/02/23 yn gywir.
Gofynnodd FP am daliadau TAW gael eu cofnodi ar wahân ar gyfer adroddiadau ariannol yn y dyfodol.
**Cynnig:** IW **Eilio:** FP

**b) Adolygu'r Polisi Rhoddion Blynyddol** – dywedodd FP nad oedd ein "Polisi Rhoddion" yn bolisi ond yn hytrach amserlen dalu yn unig ac roedd angen i ni gael Polisi priodol yn ei le. Dosbarthodd JJ dempled draft i bawb, a gafodd ei drafod yn sydyn ond cytunwyd fod angen trafodaeth bellach yn y cyfarfod nesaf yn Mis Ebrill, i drafod yn fwy manwl.
'Roedd nifer o amodau perthnasol a oedd angen eu cynnwys o fewn y polisi h.y. beth oedd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ac hefyd bod angen cais ffurfiol.
Cododd FP y mater hefyd am y cyfreithlondeb, mewn perthynas â rhoi rhodd i "Mynwenti Plwyf Llangelynnin" Gan eu bod yn eglwysi weithiol - dylai prawf o wariant fod yn cael eu ddarparu.
Cytunwyd y dylai hyn ddod yn ymarferol ar gyfer rhoddion y flwyddyn nesaf.
Cytunwyd gael trafodaeth pellach ar y pwyntiau hyn, ynghyd â'r Polisi a'r Amserlen Dalu yn y cyfarfod nesaf ym Mis Ebrill.
**JJ** i anfon copi o'r "polisi draft" a'r ffurflen gais i bawb.

**c) Talu rhoddion a gymeradwywyd ymlaen llaw** – Cytunwyd dalu "rhoddion" flwyddyn ddiwethaf 2022-23. Nodwyd bod y rhoddion yma yn hwyr yn cael eu hanfon allan. Dylid eu bod wedi cael eu trafod a'u talu yn y cyfarfod diwethaf – Mis Chwefror.

**d) Taliadau sieciau wedu eu gwneud** – taliad i Keith Carroll (padiau newydd i'r diffibriliwr), taliad i SARPA a taliad i Un Llais Cymru i adnewyddu aelodaeth y Cyngor Cymuned am y flwyddyn nesaf.

8. **<u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr</u>:** Dim.

9. **<u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol</u>**: Dim yn bresennol.

10. **<u>Unrhyw Fater Arall:</u>**

**a) Adolygu Polisi Yswiriant BIBH** – JJ i newid manylion y Clerc, a cynnwys 2 x diffibriliwr, 2 x bocs diffibriliwr a 3 x eitem newydd o offer ffitrwydd awyr iach i'r polisi yswiriant.

**b) Adolygu'r Gofrestr Asedau –** Angen nifer o newidiadau sef: 6 yn lle 7 o feinciau pren gyda pen concrit, 1 x mainc blastig, 3 x offer ffitrwydd awyr iach, 1 fainc yn lle 2 yn Godre'r Gaer a'r 2 x diffibrilwyr gyda bocses.

**c) Adolygu'r Gofrestr Asesu Risg** – Ychwanegu asesiad risg newydd yn ymwneud â Thaliadau a Thwyll.

**d) Adolygu Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau** – Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6 i cynnwys y geiriau "byddwn yn sicrhau y bydd contractwyr yn cael eu hysbysu i wirio bywyd gwyllt posibl yn ystod y tymor nythu".

**e) Datganiadau o Ddiddordeb** – llofnododd DG a GM y datganiadau oedd yn berthnasol i gyfarfod Mis Chwefror. Bydd y rhai sy'n berthnasol i gyfarfod Mis Mawrth yn barod i'w llofnodi yng nghyfarfod Mis Ebrill.

**f) Cytundeb Cyflogaeth a Swydd Ddisgrifiad** – (Y Clerc Newydd) a Materion yn Codi o'r cyfarfod arbennig a gafodd ei drefnu ar 02.03.23 – Trafodaeth bellach ar bwyntiau o fewn y cofnodion – cytunwyd fel a ganlyn:

**I.** Cytunwyd cyflog y clerc ar Raddfa Gyflog 12

**II.** Cyflog y Clerc i'w dalu'n fisol o ddiwedd Mis Mawrth.
Bydd cyflog Mis Mawrth y clerc yn cynnwys y oriu ychwanegol Mis Chwefror.

**III.** Costau y clerc i'w talu'n fisol o ddiwedd Mis Mawrth. Byddai costau Mis Mawrth yn cynnwys costau Mis Chwefror hefyd.

**IV.** Cyflog y clerc i'w godi'n flynyddol yn unol â chytundeb tâl cenedlaethol/canllawiau llywodraethol.

**V.** Cynigiodd GE ac eiliodd GM fod y clerc angen "printer" ar gyfer yr argraffu ychwanegol - FP yn meddwl fod ganddi hi un spar y gall y clerc ei ddefnyddio – byddai yn edrych amdano, fel arall mae angen prynu "printer" newydd.

**VI.** Mewn perthynas ag argraffu cofnodion/agendâu ac ati KC (cynghorwyd drwy e-bost) GE, FP a DG ddim angen copi papur, JL, HD a GM angen copïau papur mewn cyfarfodydd yn unig ac roedd IW yn dymuno parhau â'r trefniant presennol sef copi papur wedi ei baratoi ai bostio iddo cyn y cyfarfod.
Bydd angen i'r Cynghorwyr sydd ddim yn bresennol heno roi gwybod eu penderfyniad yng nghyfarfod Mis Ebrill.

**VII.** **IRPW** – pob un o'r cynghorwyr a oedd yn bresennol wedi dweud nag ydynt eisio tal IRPW ac wedi cwblhau'r ffurflenni priodol a'u dychwelyd i'r clerc JJ.
Bydd angen i'r Cynghorwyr sydd ddim yn bresennol heno roi gwybod eu penderfyniad yng nghyfarfod Mis Ebrill.

**g) Amrywiol** - dywedodd GM fod Cyngor Sir Gwynedd wedi cysylltu ag ef ynglyn a taith gerdded yn ymgorffori Llwyngwril, a gofyn tybed a fyddai'r Cyngor Cymuned yn hapus i hyrwyddo'r prosiect. Pawb yn cytuno yn gyffredinol ond hefyd cytuno fod angen trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf yn Mis Ebrill.
Yn y cyfamser GM i gysylltu a Chyngor Gwynedd a cael fwy o wybodaeth/mapiau/cynlluniau.

**h) Amrywiol** – Awgrymodd IW fod Glenda Edwards i gael taliad am ei chymorth i'r clerc newydd JJ, ond cadarnhaodd GE nad oedd hi eisiau taliad.

**i) Amrywiol** - KC wedi anfon neges at DG ynglŷn â'r diffibrilwyr a datgan bod Mike Senior wedi mynegi dymuniad i gael rheolaeth drost y diffibrilwyr gan ei fod yn gwybod sut yr oeddent yn gweithio ac ati, gyda'r Cyngor Cymuned i dalu am costau padiau a rhannau newydd i'r diffibrilwyr.
Felly fe fydd y diffibrilwyr yn perthyn i'r Cyngor Cymuned ond byddent yn cael eu cynnal gan yr Ymatebwyr Cyntaf (First Responders).

**j) Amrywiol** – Awgrymodd FP y byddai'n syniad da i anfon copi o Rheolau Sefydlog a'r Rheolau Ariannol y Cyngor Cymuned ymlaen i bob aelod er mwyn iddynt gael yr holl wybodaeth berthnasol wrth law.

**<u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 12.04.23 - am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril</u>**

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………</u>**